



Hawdd ei ddeall

Ein cynlluniau ar gyfer tai yng Nghaerffili

Beth rydyn ni eisisau ei wneud i wella tai yng Nghaerffili

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i bartneriaid**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Ein Agenda ar gyfer Newid 2021 - 2026'.

Awst 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall, ond efallai y byddwch angen cymorth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Gall geiriau mewn ysgrif **grif trwm glas** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 31**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i bartneriaid**. Am ragor o wyboaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: www.caerffili.gov.uk/cy

E-bost: stratanddevelop@CAERPHILLY.GOV.UK.



Gwnaeth [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, [cliciwch yma](#).

[Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247](#).

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	2
Tai yn y dyfodol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	4
Creu gwell dewisiadau	8
Creu lleoedd gwych i fyw.....	14
Creu cartrefi a chymunedau	20
Darparu cartrefi newydd	24
Cefnogi Anghenion Tai Arbenigol.....	26
Geiriau anodd.....	31

Tai yn y dyfodol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili




Yn y ddogfen hon byddwn yn galw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – **CBS Caerffili**.



Dyma ein cynlluniau ar gyfer tai yng Nghaerffili hyd at 2026. .



Rydyn ni eisiau i'r cartrefi newydd rydyn ni'n eu hadeiladu roi dewisiadau i bobl ac i fod o ansawdd da.



Fe fydd cartrefi newydd yn ynni effeithlon. Mae hyn yn meddwl defnyddio llai o ynni i wneud pethau fel cynhesu a goleuo eich cartref



Fe fyddwn ni hefyd yn gwneud newidiadau i'r tai rydyn ni'n berchen arnyn nhw nawr, ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel, yn gynnes ac yn **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu defnyddio rhywbeth. Er enghraifft, cael switshis golau ar uchder is fel bod pobl mewn cadeiriau olwyn yn gallu eu cyrraedd.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod cartrefi yn rhai mae pobl yn gallu fforddio byw ynddyn nhw, os ydyn nhw yn eu rhentu neu yn eu prynu.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod llety ar gael i bobl ag anghenion gwahanol. Er enghraifft:

- Pobl sy'n ddigartref
- Pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref
- Pobl ag anghenion eraill.

Mae gennym ni 5 nod mawr. Maen nhw yn:



1. Creu gwell dewisiadau - mae hyn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn dod yn gyntaf ac rydyni yn ateb eu hanghenion. Hefyd, bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



2. Creu llefydd gwych i fyw – Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein cartrefi'n well i'r amgylchedd. Hefyd bod ein cartrefi a'n cymunedau yn lleoedd da i fyw.



3. Creu cartrefi a chymunedau iach – Rydyn ni eisiau cefnogi a chynghori pobl ar sut i wella eu hiechyd a'u cartrefi. Fe fyddwn hefyd yn gweithio gyda landlordiaid preifat i helpu i wella ansawdd eu tai.



4. Darparu cartrefi newydd – Rydyn ni eisiau adeiladu cartrefi newydd a chefnogi adeiladwyr eraill i adeiladu cartrefi newydd.



5. Cefnogi Anghenion Tai Arbenigol - mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod y cartrefi cywir ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol.

Er mwyn cyflawni'r 5 nod hyn, rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod hefyd yn gweithio gyda'r 3 syniad yma.



1. Datblygu cynaliadwy - Mae hyn yn meddw; gwneud pethau a fydd yn para am amser hir.



2. Iechyd a llesiant

Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.



3. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal, yn deg, a darganfod beth mae pobl ei eisiau.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn gwahanol bethau.

Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan, ac mae gan bawb gyfle teg.

Creu gwell dewisiadau

Rydyn ni eisiau i bobl gael cartrefi o ansawdd da os ydyn nhw yn rhentu neu'n prynu cartref. Dyma rai o'n cynlluniau:

Cefnogaeth i bobl sydd eisiau prynu cartref




Rydyn ni eisiau cefnogi pobl sydd eisiau prynu cartref.



Fe fyddwn ni yn gwneud hyn drwy gynnig cymorth i brynu cartrefi sydd wedi cael eu hadeiladu gan y cyngor.



Fe fydd hyn ar gyfer prynwyr tro cyntaf, pobl nad ydyn nhw yn ennill llawer o arian a phobl mewn rhai swyddi.



Rydyn ni eisiau i fwy o bobl fyw yn rhan ogleddol bwrdeistref Caerffili. Fe fyddwn ni yn dod o hyd i ffyrdd o helpu pobl i feddwl am hyn.

Cefnogaeth i bobl sy'n berchen ar eu cartref eu hunain



Rydyn ni eisiau cefnogi pobl sydd efallai angen symud ond nad ydyn nhw'n gallu gwneud hynny. Er enghraifft, oherwydd bod angen tŷ mwy arnyn nhw ond nad ydy nhw yn gallu ei fforddio.



Cefnogaeth i bobl sy'n rhentu yn y sector rhentu preifat



Mae llawer o bobl yn byw mewn cartrefi rhent preifat.



Rydyn ni'n gwybod bod angen i lawer o'r tai fod o ansawdd gwell.



Fe fyddwn ni yn parhau i fod yn rhan o **Rhentu Doeth Cymru** - dyma fudiad sy'n cefnogi landlordiaid preifat i ddilyn cyfreithiau tai.



Fe fyddwn ni yn parhau i weithio gyda landlordiaid a hefyd yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwella eu heiddo pan fydd angen.



Fe fyddwn ni yn gwneud rhan newydd i'n gwefan a fydd yn cefnogi pobl sy'n rhentu gan landlordiaid preifat.

Cefnogaeth i bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol



Tai cymdeithasol ydy tai sy'n eiddo i'r cyngor neu gymdeithas dai. Mae'r bobl sy'n rhedeg tai cymdeithasol yn cael eu galw yn **landlordiaid cymdeithasol**. Er enghraifft, y Cyngor, Pobl, United Welsh, Cadwyn ac eraill.



Mae tua 2 o bob 10 o bobl o Gaerffili yn byw mewn **tai cymdeithasol**.



Rydyn ni angen mwy o gartrefi. Rydyn ni angen mwy o gartrefi 1 ystafell wely a 4 ystafell wely.



Mae gennym ni ormod o gartrefi 3 ystafell wely.



Rydyn ni'n gallu gwneud newidiadau i'r rhain fel eu bod yn dod yn 4 ystafell wely.



Neu rydyn ni'n gallu meddwl am eu gwerthu i brynwyr tro cyntaf neu bobl sydd angen cartref mwy.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pob tŷ cymdeithasol yn cael ei reoli'n dda ac i'r un safonau uchel.



Mae'r cyngor hefyd yn mynd i wneud llawer mwy o waith i'n gwasanaethau ar-lein i helpu i reoli materion tai yn dda.

Pobl hŷn yng Nghaerffili



Mae mwy o bobl yn byw'n hirach.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn aros yn eu cartrefi eu hunain wrth iddyn nhw fynd yn hŷn. Ond fe fydd rhai pobl eisiau neu angen symud.



Fe fydd angen gofal a chymorth ychwanegol ar rai pobl.




Mae angen i gymorth fod ar gael i bobl allu aros yn eu cartrefi eu hunain.



Hefyd, mae angen i ddewisiadau eraill fod ar gael i bobl sydd angen symud.

Creu lleoedd gwyb i fyw

Rydyn ni eisiau i bobl gael lleoedd gwyb i fyw.



Rydyn ni eisiau i ardaloedd gael ysgolion da a gwasanaethau iechyd da.



Rydyn ni eisiau iddyn nhw gael trafndiaeth dda, gwasanaethau hamdden da a thai da.



Rydyn ni'n gwybod fod angen gwella rhai rhannau o fwrdeisterf sirol Caerffili ac mae angen i ni wario arian arnyn nhw.



Er enghraifft, mae llawer o wahaniaethau rhwng rhan yn nghogleddy sir a'r rhan yn y de.



Rydyn ni eisiau i Gaerffili gyfan fod yn lle da i fyw.



Dydy hyn ddim yn meddwl dim ond tai ond cefnogi busnesau lleol a chreu swyddi newydd.



Rydyn ni yn credu y bydd y gwelliannau sy'n cael eu gwneud i drafnidiaeth yn yr ardal yn helpu Caerffili.



Mae tai yn costio symiau gwahanol yn dibynnu ar ardal bwrdeistref sirol Caerffili.



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod digon o ddewis ar gyfer tai ar draws Caerffili.



Mae hyn yn meddwl mathau o dai a chostau tai.



Dydyn ni ddim yn credu bod digon o opsiynau tai ar gyfer pobl iau ym mwrdeistref sirol Caerffili ac mae angen i ni newid hyn.



Trefi



Mae'r ffordd y mae pobl yn byw wedi newid llawer ers COVID-19.



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod canol ein trefi wedi'u cynllunio i ateb anghenion pobl a'r ffyrdd rydyn ni'n byw.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi llawer o arian i helpu canol tref Caerffili i ddatblygu.



Rydyn ni yn credu ei bod yn bwysig cael mwy o dai yng nghanol trefi.

Cefnogi cartrefi ac ardaloedd da



Mae angen i ni weithio gyda chymunedau lleol i wneud yn siŵr ein bod yn creu lleoedd y mae pobl eisiau byw ynddyn nhw.

Y math o bethau sydd yn gallu bod yn bwysig ydy:



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn dda.



- Gwneud yn siŵr bod yma barciau a mannau gwyrdd.



- Gwneud yn siŵr fod trafnidiaeth yn dda.

- Gwneud yn siŵr bod gan ardaloedd llygredd aer isel.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo eu bod wedi eu cysylltu gyda phobl eraill.

Yr amgylchedd



Fe fydd y cyngor yn **sero-net** erbyn 2030.



Fe fydd hyn yn newid sut rydyn ni yn gwneud pethau fel adeiladu cartrefi ac fe fydd y dulliau rydyn ni y neu defnyddio yn newid llawer.



Creu cartrefi a chymunedau

Mae tai diogel, cynnes a diogel yn bwysig iawn i'n **llesiant**.

Gofalu am Gaerffili



Gofalu am Gaerffili ydy'r enw am gynlluniau ynglŷn â sut mae CBS Caerffili eisiau gweithio.



Mae'n meddwl rhoi'r gefnogaeth gywir i bobl yn gynnwys. Nawr, mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael help gan wasanaethau pan fydd problemau'n mynd yn ddrwg iawn.



Fe ddylai'r cyngor wneud mwy i helpu pobl i wella eu bywydau a'u **llesiant**.



Fe ddylai hefyd fod yn haws cael gafael ar wasanaethau amrywiol, megis trwy 1 pwynt cyswllt.



Fe fyddwn ni yn cefnogi'r gwasanaeth yma ac yn helpu pobl i gael yr help maen nhw ei angen. Er enghraifft, mynediad i gyngor am ddyled.



Fe fyddwn ni hefyd yn rhoi mwy o gefnogaeth i bobl sy'n byw mewn tai preifat.



Er enghraifft, benthyciadau neu grantiau i wneud cartrefi'n gynnes, yn ddiogel ac yn ddiogel.



Mae'n llawer mwy anodd gwneud cartrefi presennol yn **net-sero** nag adeiladu o'r newydd.



Mae'n rhaid i ni geisio gwneud cartrefi'n well am ddefnyddio ynni. Mae hyn yn dda i'r amgylchedd a hefyd mae'n gallu lleihau costau i bobl.



Fe fyddwn ni yn rhoi cymorth a chyngor i bobl sy'n byw mewn cartrefi preifat am arbed ynni.



Fe fyddwn ni hefyd yn gwario miliynau lawer o bunnoedd ar dai sy'n eiddo i'r cyngor i wneud iddyn nhw ddefnyddio llai o ynni.



Pan fyddwn ni yn adeiladu cartrefi newydd, fe fyddwn ni hefyd yn meddwl am lawer o faterion pwysig sydd yn gallu effeithio ar iechyd a **llesiant** pobl. Er enghraifft:

- Golau naturiol
- Maint cartref
- Pa mor gynnes ydy'r cartref
- Y gymuned
- Sŵn
- Gwasanaethau lleol.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol



Ymddygiad gwrthgymdeithasol ydy pan fydd ymddygiad rhywun yn achosi problemau i eraill o'u cwmpas. Er enghraifft, rhywun yn gwneud llawer o sŵn yn y nos ar y stryd.



Mae **ymddygiad gwrthgymdeithasol** yn gallu cael effaith mawr ar fywyd rhywun a'u hiechyd a'u **llesiant**.



Rydyn ni yn mynd i wneud mwy i helpu i stopio **ymddygiad gwrthgymdeithasol** a chefnogi'r rhai sydd yn cael eu heffeithio gan hynny. Mae hyn yn cynnwys ceisio helpu'r rhai sy'n ei achosi.

Darparu cartrefi newydd

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod gan fwrdeistref sirol Caerffili ddigon o gartrefi.



Fe ddylen nhw fod yn addas ar gyfer anghenion pobl, fe ddylen nhw fod yn braf a c fe ddylen nhw fod yn fforddiadwy.



Mae'r pethau yma yn gallu bod yn anodd eu cyflawni. Felly, mae'n rhaid i ni feddwl am sut i wneud pethau.



Mae gennym ni gynllun i'n helpu i gyflawni hyn ac fe fyddwn ni yn cyflwyno cynllun arall yn 2024.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda **landlordiaid cymdeithasol** i feddwl am lle i adeiladu cartrefi newydd a sut i'w hadeiladu yn y ffordd orau.



Rydyn ni hefyd eisiau weithio'n agosach gyda nhw, fel ein bod ni i gyd yn gallu darparu'r gwasanaethau gorau.



Fe fyddwn ni yn edrych ar leihau'r adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor. F fydd hyn yn meddwl y bydd mwy o le i adeiladu tai.



Rydyn ni yn llunio cynllun ar gyfer Cartrefi Caerffili i adeiladu 400 o gartrefi newydd.



Rydyn ni hefyd yn mynd i wario llawer o arian yn ceisio dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.




Fe fydd hyn yn meddwl rhoi benthyg arian i bobl wneud hyn.



Rydyn ni eisiau helpu i wneud yn siŵr ein bod yn creu swyddi a hyfforddiant lleol newydd drwy ein gwaith o adeiladu cartrefi.

Cefnogi Anghenion Tai Arbenigol

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl y tai maen nhw eu hangen. Rhaid i bobl bwrdeistref sirol Caerffili ddod yn gyntaf.



Mae COVID-19 wedi dangos i ni nad ydy pobl yn cael eu trin yn deg ac mae rhai grwpiau o bobl wedi cael eu heffeithio yn llawer mwy na grwpiau eraill.



Er enghraifft, mae llawer mwy o bobl yn cysgu ar y strydoedd. Mae hyn yn meddwl ein bod ni angen mwy o gartrefi i'w cefnogi.



Mae angen i ni hefyd wneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth maen nhw ei angen gyda'u tai. Mae angen cefnogaeth ar rai pobl i'w helpu i fod yn annibynnol.



Rydyn ni eisiau cefnogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain a stopio pobl rhag gorfod bod yn yr ysbyty pan nad oes angen iddyn nhw fod yno.



Er enghraifft, drwy wneud yn siŵr eu bod yn **hygyrch**.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gofalwyr ym mwrdeistref sirol Caerffili yn cael seibiant. Felly rydyn ni eisiau adeiladu **Canolfan Seibiant** ym Mhontllanfraith.



Fe fydd hwn yn lle i ofalu am bobl yn y tymor byr.

Tai i bobl ag anghenion ychwanegol



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarganfod pa fath o dai sydd eu hangen yn yr ardal ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol.



Rydyn ni eisiau i bobl fyw yn eu cartrefi eu hunain a gyda phwy y maen nhw eisiau byw gyda nhw.



Rydyn ni eisiau mwy o ddewisiadau i bobl.



Mae angen i ni edrych ar y tai sydd gennym ni ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd gorau.



Rydyn ni eisiau datblygu cynlluniau tai â chymorth gwell ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl ac anghenion cymorth eraill.



Mae angen i ni ddarparu gwell cefnogaeth i bobl ddigartref a gweithio ar gynllun newydd o'r enw **Ailgartrefu Cyflym**. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod pobl ddigartref yn cael y tai maen nhw eu hangen yn fwy cylfym.



Mae angen i ni gynllunio ar gyfer pobl sydd yn gallu bod yn ddigartref yn y dyfodol.



Er enghraifft, rydyn ni yn gwybod bod llawer o bobl heb ddigon o arian ac mae bwyd a biliau yn costio mwy o arian.



Mae angen i ni helpu mwy o bobl yn gynnwys cynyddu nhw ddod yn ddigartref a helpu i'w stopio.



Rhaid i ni hefyd ddysgu mwy am anghenion pobl ddigartref a pham mae rhai pobl yn cysgu ar y strydoedd a rhoi'r cymorth maen nhw ei angen iddyn nhw.

Safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr



Mae pobl **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn symud o le i le yn lle byw mewn tŷ.



Does gennym ni ddim unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud safle parhaol ar gyfer y grŵp hwn o bobl oherwydd eu bod yn tueddu i symud drwy'r ardal.



Geiriau anodd

Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn gwahanol bethau.

Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan, ac mae gan bawb gyfle teg.

Hygyrch

Mae hyn yn meddwl bod pawb yn gallu ei ddefnyddio. Er enghraifft, cael switshis golau ar uchder is fel bod pobl mewn cadeiriau olwyn yn gallu eu cyrraedd.

Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.

Tai cymdeithasol

Dyma dai sy'n eiddo i'r cyngor neu gymdeithas dai. Mae'r bobl sy'n rhedeg tai cymdeithasol yn cael eu galw yn landlordiaid cymdeithasol. Er enghraifft, y Cyngor, Pobl, Welsh United, Cadwyn ac eraill.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Dyma pryd mae ymddygiad rhywun yn achosi problemau i eraill o'u cwmpas. Er enghraifft, rhywun yn gwneud llawer o sŵn yn y nos ar y stryd.

